

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – RHAGLEN BRECHIADAU ATGYFNERTHU COVID-19

Oherwydd y risgiau parhaus a achosir gan COVID-19 a'r ffaith bod brechlyn ar gael i ddiogelu dinasyddion mwyaf agored i niwed Cymru (fel y nodwyd gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu) mae angen cydlynu a nodi unigolion sy'n gymwys er mwyn cynnig y cyfle iddynt gael eu brechu.

Er mwyn galluogi'r broses hon mae gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Byrddau Iechyd Lleol i ofyn i feddygfeydd i sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol ar gael i lechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) at ddibenion nodi grwpiau blaenoriaeth, anfon gwahoddiadau a threfnu apwyntiadau brechu, a rheoli a monitro brechiadau drwy System Imiwneiddio Cymru ar gyfer rhaglen frechu Covid.

Y data a gesglir

Bydd yr wybodaeth yn dod o systemau meddygon teulu, gan gynnwys: y rhif GIG, a'r cyflyrau iechyd perthnasol (er enghraifft y cleifion sy'n imiwnoataliedig ar hyn o bryd) sy'n gwneud pobl yn agored i niwed gan Covid-19.

Defnyddir y wybodaeth hon i nodi cymhwysedd perthnasol ar gyfer brechu a chaniatáu i gleifion gael cynnig brechiad rhag Covid-19 yn briodol.

Sut y caiff data ei ddefnyddio a'i ddatgelu

Yn ôl cyfarwyddyd y Bwrdd Iechyd, bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn tynnu gwybodaeth berthnasol o systemau meddygon teulu ac yn defnyddio hyn i nodi cymhwysedd perthnasol ar gyfer brechu a chaniatáu i gleifion gael cynnig brechiad rhag Covid-19 yn briodol.

Bydd data sy'n ymwneud â chleifion cymwys yn cael ei ychwanegu i System Imiwneiddio Cymru fel y gellir anfon gwahoddiadau, archebu apwyntiadau a rheoli a monitro brechiadau ar gyfer y rhaglen frechu.

Y sail gyfreithiol dros brosesu

Mae gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i ofyn i feddygon teulu ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen frechu yn erbyn COVID-19 yn unol â'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn natganiad ysgrifenedig y gweinidog ("yr wybodaeth berthnasol"), mewn perthynas â pha feddygon teulu y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio yn unol â pharagraff 85 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau Contractau GMC").

Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn awdurdodi **IGDC** yn ysgrifenedig i gasglu a phrosesu'r wybodaeth hon fel sy'n ofynnol yn rhesymol mewn cysylltiad â swyddogaethau'r BILL mewn perthynas â'r rhaglen frechu rhag COVID-19.

Cyfarwyddir **IGDC** i gasglu a phrosesu'r wybodaeth berthnasol gan feddygon teulu at ddibenion darparu'r rhaglen frechu rhag COVID-19.

At ddibenion GDPR, sail gyfreithlon y Practis ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw Erthygl 6(1)(e) arfer awdurdod swyddogol, ac ar gyfer prosesu data mewn categorïau arbennig (iechyd) yr

	<p>amodau yw 9(2)(h) lechyd a gofal cymdeithasol a 9(2)(i) dibenion iechyd y cyhoedd.</p> <p>Rhoddwyd cyfarwyddydau fel a ganlyn sy'n galluogi i'r prosesu hwn ddigwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Byrddau Iechyd Lleol ("BILlau") gan arfer y pŵer a roddir gan adran 12(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf y GIG (Cymru)") at ddibenion darparu gwybodaeth o dan baragraff 85 o Atodlen 3 i'r "Rheoliadau Contractau GMC", a b) Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("IGDC") gan arfer y pŵer a roddir gan adran 23(1) o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, at ddibenion erthygl 3(a) a (b) o Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020 a pharagraff 3(1)(a) o Gyfarwyddydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Rhif 2) 2021.
<p>Sut y caiff eich gwybodaeth ei storio a'i diogelu</p>	<p>Caiff eich gwybodaeth bersonol ei diogelu mewn nifer o ffyrdd. Bydd yr wybodaeth sydd ei hangen yn cael ei thynnu'n ddiogel o system y practis a'i storio gan lechyd a Gofal Digidol Cymru ar systemau cyfrifiadurol sydd wedi eu profi i sicrhau eu bod yn ddiogel, ac sy'n cael eu diweddarau i'w diogelu rhag feirysau a hacio.</p> <p>Caiff eich gwybodaeth bersonol ei storio o fewn y DU yn unig, a dim ond staff sydd wedi cael hyfforddiant penodol i amddiffyn eich preifatrwydd sy'n gallu gweld eich gwybodaeth bersonol.</p> <p>Mae rheolaethau cryf ar waith i sicrhau nad yw'r holl staff hyn ond yn gallu gweld yr isafswm o wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnynt i wneud eu gwaith.</p>
<p>Eich hawliau dros eich gwybodaeth</p>	<p>O dan gyfraith diogelu data, mae gennych nifer o hawliau dros eich gwybodaeth bersonol. Mae gennych hawl i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - gofyn am gopi o unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch - gofyn am i unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch, yr ydych yn meddwl ei bod yn anghywir, gael ei newid - gofyn inni gyfyngu ar ein defnydd o'ch gwybodaeth, er enghraifft, os ydych chi'n meddwl bod y wybodaeth rydyn ni'n ei defnyddio yn anghywir

- | | |
|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none">- gwrthwynebu inni ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch, er nad yw hyn yn hawl absoliwt ac y bydd angen inni barhau i ddefnyddio eich gwybodaeth o bosibl – os felly, byddwn yn dweud wrthyhch pam
- dileu unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch, er nad yw hyn yn hawl absoliwt ac y bydd angen inni barhau i ddefnyddio eich gwybodaeth o bosibl – os felly, byddwn yn dweud wrthyhch pam
- gofyn inni beidio â defnyddio'ch gwybodaeth i wneud penderfyniadau awtomataidd amdanoch heb gynnwys un o'n staff |
|--|--|

Gallwch weld unrhyw un o'ch hawliau drwy gysylltu â'r practis.